# SCDSW3
Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae gwaith cymdeithasol yn gofyn llawer, nid yn unig ar wybodaeth a sgiliau proffesiynol gweithwyr cymdeithasol, ond ar eu gallu personol hefyd. Gall y gwaith effeithio ar eu lles personol, boed hynny'n gorfforol neu'n emosiynol. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r angen am gynllunio ymwybodol ynghylch sut i fanteisio i'r eithaf ar amser, egni ac arbenigedd, y ffordd orau i gadw'n ddiogel mewn sefyllfaoedd sydd â risg, a sut i reoli'r rôl gwaith cymdeithasol yn ei chyd-destunau a'i chyfyngiadau amrywiol

## Meini prawf perfformiad

*Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:*

| | |
|---|---|
| P1 | gweithio o fewn **cyd-destun** eich sefydliad eich hun |
| P2 | pennu paramedrau eich rôl gwaith eich hun a sut y mae cyfrifoldebau pobl eraill yn cysylltu â'r rhain |
| P3 | sicrhau eich bod yn deall y prosesau y gallech fod ynghlwm wrthynt |
| P4 | cynllunio, gyda chymorth, sut i flaenoriaethu gwaith er mwyn defnyddio'ch amser yn effeithiol |
| P5 | cymryd camau i sicrhau eich diogelwch mewn sefyllfaoedd lle mae risg o niwed i chi |
| P6 | cydnabod yr effaith y gall sefyllfaoedd gwaith eu cael ar eich lles a'ch ymarfer |
| P7 | gweithredu strategaethau i ddatblygu eich gwydnwch personol a phroffesiynol |
| P8 | herio eich rhagdybiaethau eich hun a all arwain at wahaniaethu yn eich ymarfer |
| P9 | myfyrio ar y ffordd rydych yn rheoli eich rôl, er mwyn sicrhau datblygiad parhaus a chofrestriad proffesiynol parhaus |

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

| | |
|---|---|
| K1 | deddfwriaeth ryngwladol, ei pherthynas â **pholisïau'r** DU ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K2 | deddfwriaeth y DU, ei pherthynas â **pholisïau** cenedlaethol ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K3 | deddfwriaeth genedlaethol, ei pherthynas â **pholisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K4 | codau, safonau, fframweithiau ac arweiniad statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K5 | nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion |
| K6 | damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o ddatblygiad dynol a'r ffactorau sy'n effeithio arno |
| K7 | damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol o safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol a throseddegol |
| K8 | damcaniaethau gwahaniaethu mewn cymdeithas gyfoes |
| K9 | beirniadaethau ar sail damcaniaethau ac ymchwil ar y berthynas rhwng deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K10 | gwaith cymdeithasol fel proffesiwn, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol a materion cyfoes |
| K11 | natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol |
| K12 | egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K13 | **ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol |
| K14 | tueddiadau demograffig a chymdeithasol |
| K15 | eich cefndir, profiadau ac arferion eich hun a all effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K16 | egwyddorion asesu risg a rheoli risg |

K17 technegau datrys problemau a meddwl arloesol
K18 egwyddorion rheoli gwrthdaro
K19 gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol
K20 diben gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill
K21 cylch gwaith, swyddogaethau, ethos a chyfrifoldebau disgyblaethau a sefydliadau sy'n ymglymedig â gwaith amlddisgyblaethol
K22 egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
K23 gweithdrefnau amlddisgyblaethol a sefydliadol lleol ar gyfer ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth
K24 nodweddion cyffredin ymddygiad cyflawnwyr
K25 dangosyddion gelyniaeth, gwrthwynebiad neu ddiffyg cydymffurfio cudd
K26 grym a chyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y gellir eu defnyddio er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
K27 egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu
K28 prosesau a gofynion ar gyfer goruchwyliaeth ffurfiol o fewn eich sefydliad eich hun
K29 sut a phryd i fanteisio ar gymorth anffurfiol wrth ymarfer
K30 ffynonellau o adborth a all lywio myfyrio ar ymarfer a meddwl beirniadol

## Gwybodaeth Ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Cwmpas/ystod** | Ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau, mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol |
| **Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad** | Bydd **y cyd-destun** yn cynnwys fframwaith cyfreithiol a pholisi'r sefydliad; a'i systemau, strwythurau, a threfniadau llywodraethu; ei ddiwylliant a ffyrdd o weithio<br>Bydd **prosesau** yn cynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â lleoliadau ffurfiol, statudol a chyfreithiol |
| **Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth** | Gall **polisïau** gynnwys rhai sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, diogelu, ail-leoli/atgyfannu yn y gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a cheisio lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hybu annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau<br>Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy'n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu'r cyhoedd |

**SCDSW3**

# Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Gwerthoedd** | Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy'n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a'r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt |
| **Sgiliau** | 1 Cynllunio camau gweithredu i gyflawni canlyniadau canfyddedig<br>2 Rheoli galw ar eich amser eich hun i flaenoriaethu'r hyn sy'n bwysig, yn ogystal â'r hyn sydd angen ei wneud ar frys<br>3 Cymhwyso meddwl beirniadol i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau<br>4 Dadansoddi a chyfosod gwybodaeth gymhleth<br>5 Cymhwyso meddwl creadigol i ddatrys problemau cymhleth<br>6 Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch gwybodaeth neu'ch profiad chi<br>7 Cymhwyso meddwl beirniadol er mwyn myfyrio ar eich ymarfer eich hun<br>8 Cyfosod gwybodaeth ac ymarfer |
| **Cysylltiadau â SGC eraill** | Mae'r SGC hon yn tanategu pob SGC Gwaith Cymdeithasol arall. |
| **Cysylltiadau Allanol** | Mae'r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithwyr cymdeithasol. |

**SCDSW3**

# Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **Rhif y fersiwn** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | HYDREF 2011 |
| **Dyddiad adolygu mynegol** | Ebrill 2014 |
| **Dilysrwydd** | Cyfredol |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad gwreiddiol** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **URN gwreiddiol** | SCDSW3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Cymdeithasol |
| **Cyfres** | Gwaith Cymdeithasol |
| **Allweddeiriau** | rheoli; gwaith cymdeithasol |